# Cytundeb Cyllideb ar gyfer Cyllideb Derfynol 2025-26

**Llywodraeth Cymru a Jane Dodds AS, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

Mawrth 2025

**Crynodeb**

Fel rhan o Gyllideb Derfynol 2025-26, cytunodd Llywodraeth Cymru ar nifer o ddyraniadau cyllid a materion polisi gyda Jane Dodds AS, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae'r cytundeb yn canolbwyntio ar gyfres o flaenoriaethau cyffredin, sy'n sicrhau mwy na £100m o gyllid ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt.

Mae cydweithio ar sail consensws rhwng Llywodraeth Cymru a phleidiau eraill ar feysydd o ddiddordeb cyffredin wedi bod yn un o nodweddion datganoli ers ffurfio'r Cynulliad cyntaf. Mae'n cynrychioli gwir gryfder ein democratiaeth.

**Buddsoddiadau y cytunwyd arnynt** (mae'r holl gyllid yn gymwys i 2025-26 oni nodir yn wahanol)

### Iechyd a gofal cymdeithasol

- **£30m** o gyllid refeniw ar gyfer gofal cymdeithasol i dargedu oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty drwy Grant Trawsnewid Llwybrau Gofal i'r awdurdodau lleol.
- **£450,000** o gyllid cyfalaf i fwrw ymlaen â datblygu'r achos busnes amlinellol ar gyfer Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Gogledd Powys yn y Drenewydd.

### Gofal Plant

- **£30m** o gyllid refeniw ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg i ddarparu gofal plant i blant dwy flwydd oed ledled Nghymru. Bydd y gyfradd fesul awr hefyd yn cael ei chynyddu i £6.40 yr awr i gefnogi darparwyr gofal plant ymhellach.

### Cymorth i lywodraeth leol

- Sicrwydd cyllid gwaelodol o 3.8% yn y setliad llywodraeth leol, gan ddarparu **£8.24m** mewn cyllid refeniw ychwanegol i gefnogi naw awdurdod lleol.
- **£5m** o gyllid cyfalaf i'i awdurdodau lleol i wella ansawdd mannau chwarae, adnewyddu meysydd chwarae a chefnogi'r gwaith o greu mannau chwarae hygyrch a chyfleoedd i blant
- **£1m** o gymorth refeniw cylchol yn 2025-26 a swm pellach o **£4m** yn 2026-27 i alluogi awdurdodau lleol i hunangyllido £120m o gyllid cyfalaf i drwsio ffyrdd a phalmentydd lleol drwy'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol.

### Trafnidiaeth a chysylltedd

- **£15m** o gyllid refeniw dros ddwy flynedd ar gyfer cynllun peilot tocynnau bws i bobl ifanc, gan gynnig tocynnau unffordd o £1 i bobl ifanc o dan 21 oed.
- **£1.25m** o gyllid refeniw i roi gwelliannau i reilffordd Calon Cymru gan alluogi gwasanaeth ychwanegol i gael ei gyflwyno o fis Rhagfyr 2025 ymlaen.
- **£400,000** o gyllid cyfalaf i fwrw ymlaen â chynllunio a gweithredu mesurau diogelwch cychwynnol sy'n gysylltiedig â chyffordd Pont y Bat ar yr A470.
- **£500,000** o gyllid cyfalaf ar gyfer gwella cyfleusterau toiledau ar ochr y ffordd ar y rhwydwaith ffyrdd strategol.

### Yr amgylchedd, datgarboneiddio a materion gwledig

- **£10m** o gyllid refeniw ar gyfer y Cynllun Buddsoddi Gwledig.
- **£5m** o gyllid (adnoddau o £3.5m a chyfalaf o £1.5m) ar gyfer gorfodi a gwella ansawdd dŵr sy'n canolbwyntio ar orfodi ar gyfer afonydd a moroedd.
- **£5m** o gyllid cyfalaf i gefnogi datgarboneiddio canolfannau hamdden, gan eu galluogi i osod systemau gwresogi carbon isel gan eu gwneud yn wyrddach, yn gynhesach ac yn fwy cynaliadwy.

### Y celfyddydau a materion rhyngwladol

- **£200,000** o gyllid refeniw i fwrw ymlaen ymhellach ag ailddatblygu Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy yn Llanfair-ym-Muallt i fynd â'r prosiect i gam dylunio datblygedig terfynol.
- **£50,000** o gyllid refeniw i gynllun grantiau bach Cymru ac Affrica.
- **Cyllid** i gefnogi'r cam datblygu nesaf ar gyfer Lido Brynaman.

### Materion polisi

- Symud tuag at wahardd rasio milgwn yng Nghymru.
- Cryfhau Polisi Cynllunio Cymru i ddatgan bod rhaid i bob datblygwr egni ystyried pob opsiwn arall, gan gynnwys gosod llinellau o dan y ddaear, fel rhan o unrhyw asesiad o'r effaith amgylcheddol wrth wneud ceisiadau cynllunio yng Nghymru. Cronfa arloesi effeithiau gweledol gwerth £1m i dreialu a chasglu data ar dechnolegau tanddaearol newydd yn 2025-26.

© Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51819, ISBN digidol 978-1-83715-439-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg